

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 12 Medi 2019

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: LLYWODRAETHU

Teitl: Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Dyddiad dod i ben /Adolygu: 30 Medi 2022

I'w weithredu gan:

Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol ac
Ymddiriedolaethau'r GIG

Cyfarwyddwyr Llywodraethiant
Corfforaethol/Bwrdd ac Ysgrifenyddion Cyd-
bwyllgorau

Angen gweithredu erbyn:

Yn unol ag amserlen y Bwrdd a'r Pwyllgor, ond heb
fod yn hwyrach na 30 Tachwedd 2019

Anfonwyd gan:

Melanie Westlake, Pennaeth Llywodraethiant Bwrdd y GIG, Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau
Corfforaethol y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw(au) Cyswilt GIGC Llywodraeth Cymru:

Melanie Westlake, Pennaeth Llywodraethiant Bwrdd y GIG, Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau
Corfforaethol y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dogfen(nau) amgaeedig:

Llythyr i Gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

[Tabl o'r Diwygiadau, Croesgyfeiriad at Ddeddfwriaeth a Chadarnhad o Adrannau nad ydynt i'w hamrywio gan Gorff y GIG](#)

[Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol](#)

[Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG](#)

[Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru](#)

[Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys](#)

[Geirfa - Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol](#)

[Geirfa - Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG](#)



Ein cyf/Our ref: MA-P/VG/2347/19

Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol
Cadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG
Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

12 Medi 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Adolygiad o Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a chyhoeddi Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

Fel y dywedais yn flaenorol, mae fy swyddogion wedi bod yn adolygu'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC). Fel rhan o'r adolygiad hwn mae Rheolau Sefydlog Enghreifftiol hefyd wedi cael eu cynhyrchu nawr ar gyfer EASC.

Cyhoeddir y dogfennau enghreifftiol yn unol â'm pwerau cyfarwyddo yn adrannau 12(3) (ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol) ac 19(1) (ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Y tro diwethaf i'r gyfres lawn o ddogfennau enghreifftiol gael eu cyhoeddi oedd yn 2014. Fel rhan o'r adolygiad diweddaraf hwn ystyriwyd yr adrannau sy'n destun penderfyniad lleol o bosib a'r rhai sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd gweinidogol neu ofynion deddfwriaethol. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau a wnaed yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn i'w gweld yn [Atodiad 1](#).

Mae'n ofynnol i'ch Bwrdd ymgorffori a mabwysiadu'r adolygiad diweddaraf hwn i Reolau Sefydlog, Cadw a Dirprwyo Pwerau eich sefydliad. Mae Rheolau Sefydlog WHSSC ac EASC yn ffurfio Atodlen 4.1 a 4.2 o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd Lleol. Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau hefyd bod yr atodlenni hyn wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor priodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Cc:

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol

Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG

Rheolwr Gyfarwyddwr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Ysgrifenyddion Bwrdd, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Ysgrifennydd Pwyllgor, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru